



DILYN FI


PECYN CREADIGOL A GWEITHGAREDDAU





DILYN FI

Mae Nansi yn chwaer fawr am y tro cyntaf.



CRYNODEB DILYN FI

Mae gan Nansi frawd bach newydd, Bleddyn, ac mae'n ofni bod ei bywyd am newid am byth er gwaeth. Ei phryder mwyaf yw na fydd hi ddim mor bwysig i'w rhieni ac mai Bleddyn fydd yn mynd â'u bryd.

Mae'n ceisio rhannu ei hofnau hefo'i ffrind gorau, Cai, ond mae yntau wedi gwirioni hefo Bleddyn sy'n dwyshau rhwystredigaeth Nansi. Er bod y ddau yn ymgolli yn eu chwarae daw crio Bleddyn i dorri ar yr hwyl.

I ddianc rhag ei hofnau, mae'n dychmygu ei bod hi'n eliffant fel ei hoff degan meddal. Mae'r ddihangfa yn dod yn obsesiwn i Nansi nes bod Cai yn penderfynu mynd â hi ar daith i gyfarfod eliffantod go iawn yn Affrica.

Wrth ddod wyneb yn wyneb ag eliffant a'i lo bach, mae'n sylweddoli pa mor ddi-amddiffyn yw'r babi eliffant. Mae'r eliffant bach yn ei hatgoffa o Bleddyn a daw pwl mawr o hiraeth drosti. Mae gofal yr eliffant mawr o'r un bach yn ei hatgoffa bod Bleddyn yn gwbl ddiniwed.

Mae Nansi yn cyfaddef nad yw yn eliffant go iawn ac mae hyn yn ryddhad enfawr i Cai.

Wedi cyrraedd adref, mae'n cyflwyno'r tegan eliffant i Bleddyn.



CAST



ELGAN RHYS [@ELGANRHYS]

Cymeriad: Cai

Man geni: Pwllheli

Byw: Caerdydd

Yng ngeiriau Elgan: Dyfeisio, chwarae, perfformio, ysgrifennu, siarad - dyna beth fi'n ei wneud.



CÊT HAF [@CETHAF_]

Cymeriad: Nansi

Man geni: Aberystwyth

Byw: Caerdydd

Yng ngeiriau Cêt: Mae darllen yn ymfodddhad.
Mae cyfarfod pobl newydd yn lawenydd.
Mae creadigrwydd artistig mewn arlunio,
cerddoriaeth a dawns yn reddfol.



TÎM CREADIGOL



Awdur:	Sarah Argent [@sargent65]
Cyfarwyddwr:	Iola Ynyr [@Ynyrlola]
Gwisgoedd a Props:	Erin Maddocks [@erinmaddocks]
Cerddoriaeth:	Gruff Ab Arwel
Tîm Technegol:	Morgan Evans [@morganhuw] Lewis Williams [@lewiswms]



GWEITHGAREDD: CREU BYD

ADNODDAU

Casglwch nifer o bropiau diddorol sydd heb gyswllt amlwg.

FFURF

Anogwch y disgyblion i osod y propiau mewn modd difyr sy'n creu chwilfrydedd. Wedi creu 'byd', gallwch greu cymeriad sy'n byw ynddo.

CWESTIYNAU

- Lle mae'r gwrthrychau yn bodoli e.e. ystafell yn y cartref?
- Beth sydd i'w weld drwy'r ffenestr?
- Sut berson sy'n byw yn y lleoliad?
- Pwy oedd y person olaf i alw?
- Beth sydd i'w glywed yn yr ystafell?
- Pa arogleuon sydd yn yr ystafell?
- Beth yw tymheredd yr ystafell?

Wedi creu 'byd', gallwch greu cymeriad sy'n byw ynddo.



GWEITHGAREDD: CREU CYMERIAD

ADNODDAU

Bocs o ddillad diddorol e.e. cotiau, hetiau, sgidiau, sgarff, blodau, mwclis, sbectol.

FFURF

Mae'r plant yn helpu ei hunain i eitemau o'r bocs er mwyn gallu creu cymeriad ei hunain.

CWESTIYNAU

Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau isod i sbarduno'r plant i ymchwilio'n ddyfnach i'w cymeriad.

- Beth ydi enw'r cymeriad?
- Lle mae'n byw?
- Pwy ydi teulu'r cymeriad?
- Faint yw ei oed?
- Pwy yw ei ffrind gorau?
- Beth yw atgof cyntaf y cymeriad?
- Beth yw gobaith mwyaf y cymeriad?
- Beth sy'n ei ddychryn?
- Beth yw ei drysor?
- Yn lle mae'r cymeriad hapusaf?
- Beth ydi ei hoff liw a pham?
- Beth fyddai diwrnod delfrydol y cymeriad?
- Beth ydi hoff bryd bwyd y cymeriad?
- Beth ydi hoff gerddoriaeth y cymeriad?



GWEITHGAREDD: LLYTHYR CYMERIADAU




Gofynnwch i'r disgyblion lunio llythyr gan un o'r cymeriadau na welwyd yn y ddrama e.e. y fam, y tad, yr anifeiliaid yn Affrica. Gall fod yn neges y gellir ei recordio i blant iau.

Cyflwynwch y syniad o edrych o safbwynt rhywun arall a gweld y byd trwy lygaid newydd. Pwysleisiwch yr amrywiaeth o emosiynau mae unigolion neu anifeiliad yn gallu eu profi mewn diwrnod.

Gellir edrych ar emosiynau Nansi yn y ddrama e.e. cenfigen, ofn, mwynhad, hapusrwydd...

Dyma enghraifft o lythyr gan Bleddyn i'w chwaer fawr:



GWEITHGAREDD: LLUNIAU LLONYDD

Roedd Nansi a Cai yn disgrifio eu taith gyda'u cyrff a gan ddefnyddio ystumiau.

Cyflwynwch y syniad o luniau llonydd i'r un pwrpas. Darllenwch y brawddegau a gofynnwch i'r disgyblion mewn grwpiau i greu lluniau llonydd i ddisgrifio'r hyn sy'n cael ei ddarllen. Gellir gofyn i'r disgyblion roi cyfarwyddiadau eu hunain.

Engreifftau:

AR LAN Y MÔR, ROEDD TEULU YN BWYTA PICNIC.

ROEDD CRIW O WEITHWYR YN DARLLEN PAPUR NEWYDD O DAN GOEDEN.

TEITHIODD Y GWYDDONWYR I GROMBIL Y DDAEAR.

EISTEDDODD Y CATHOD WRTH Y LLE TÂN.

SUDDODD Y CERRIG I WAELOD Y MÔR.



GWEITHGAREDD: MYFYRIO

Ar ôl gwneud gweithgaredd prysur llawn egni, weithiau mae hi'n bwysig ymlacio a meddwl am yr hyn sydd wedi digwydd.



1. Rhoi cerddoriaeth ysgafn ymlaen yn y cefndir.
2. Pawb i ffeindio gofod yn yr ystafell a gorwedd i lawr a chau llygaid.
3. Gofyn- 'Ydach chi'n gallu clywed sŵn yn y neuadd, sŵn tu allan i'r neuadd, sŵn eich anadl?'
4. Rhoi un cyfarwyddyd e.e. meddyliwch am yr amser hapusaf heddiw / un peth sydd wedi eich gwneud chi yn hapus heddiw / meddwl am stori sy'n eich gwneud chi'n hapus....
5. Gadael tua hanner munud i bawb gael amser i feddwl.
6. Mynd o gwmpas yr ystafell gan wasgu bysedd traed pawb bob yn un a gofyn iddyn nhw os ydyn nhw isio rhannu eu profiadau.
7. Cofio dweud diolch (dim canmol storiâu/atgofion pobl)
8. Gorffen trwy ddweud "Yn eich amser eich hun dewch i eistedd nôl mewn cylch"



AWDUR

SARAH ARGENT

Mae Sarah Argent yn awdur adnabyddus sydd wedi ennill gwobrau rhyngwladol am ei gwaith ym myd theatr i blant ifanc iawn.

Mae cynyrchiadau Sarah wedi eu perfformio ar draws Prydain ac yn Awstria, Awstralia, Gwlad Belg, Y Weriniaeth Tsiec, Y Ffindir, Almaen, Sbaen, a De Korea.

Mae ei diddordeb mewn creu'r hyn mae'n ei alw yn "dramâu bach ar gyfer pobl bach" - cynyrchiadau sydd ag arc naratif clir lle rhoddir cyfle i'r gynulleidfa ifanc (mor ifanc â 6 mis!) gael mewnwelediad i fywydau pobl eraill, a thrwy hynny annog empathi ac ysgogi deallusrwydd emosiynol.

Yn y dramâu bach yma, mae adegau hudolus yn cael eu creu trwy gyfuniad o effeithiau gweledol a dychymyg pwerus y plant.

Fel bob math o theatr - beth bynnag yw oedran y gynulleidfa - mae Sarah yn credu bod angen archwilio i rai emosiynau fel llawenydd, tristwch, ofn, dicter, chwilfrydedd ond o fewn cyd-destun gall y gynulleidfa berthnasu ag ef.

Gall "trawma" mawr ysgogi teimladau dwys mewn plant 3 oed, ond falle gall hyn yn ymddangos yn rhywbeth dibwys i oedolion; eisiau gwisgo eich ffrog orau i fynd allan i chwarae i'r ardd; gorfod mynd i'r gwely er nad ydych yn teimlo yn gysglyd; ddim yn deall pam fod Dad eisiau stopio chwarae'r gêm tra byddwch chi yn mwynhau chwarae eto, eto ac eto; neu teimlo cenfigen o frawd neu chwaer fach newydd!



CYFARWYDDWR

IOLA YNYR

Pleser o'r mwyaf oedd cael cydweithio hefo Sarah Argent ar ddatblygiad 'Dilyn Fi'. Fel arbenigwraig ar ddyfeisio ac ysgrifennu cynrychiadau theatr ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc, mae ganddi'r ddawn o ddeall a dehongli'r byd o safbwynt plant.

Ei man cychwyn oedd stori ei nith, Phoebe, yn ymateb i'r newyddion bod ei mam yn disgwyl babi trwy ymgorffori ei hoff degan meddal sef Dumbo, yr eliffant. Gwrthododd ymateb i unrhyw gyfarwyddyd neu sgwrs oni bai ei bod yn cael ei chynnwys fel 'Dumbo'. Roedd rhaid iddi fwyta oddi ar lawr yn hytrach nag wrth y bwrdd bwyd gan defnyddio ei braich fel 'trwnc' ac nid oedd modd cyfeirio mewn unrhyw fodd ati mond fel Dumbo.

Stori arall a symbylodd Sarah oedd hanes Mika ac Anna-Bell, oedd yn bump a chwech oed, o Hanover yn yr Almaen yn rhedeg i ffwrdd i briodi yn Affrica gan ei fod yn le cynnes. Wedi dianc o'u cartrefi yn fuan ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn, cawsant eu dal yn ngorsaf reilffordd Hanover wedi cerdded am hanner milltir eu hunain.

Cafwyd dau gyfnod o ymchwil a datblygu gyda'r actorion i arbrofi gyda'r broses o greu y perfformiad. Roedd y cyfnodau hyn yn amhrisiadwy yn arbennig gan ein bod yn awyddus i ddefnyddio cyn lleied o ddeialog â phosibl.

Roedd gweithio gyda Côt, sydd yn ddawnsraig broffesiynol, ynghyd ag Elgan, sydd yn actor a chrewr theatr ei hun yn anrhydedd i mi. Roedd eu positifrwydd a'u parodrwydd i arbrofi'n frwd gyda phob syniad yn wefreiddiol.

Gobeithio yn wir eich bod chi a'r disgyblion wedi cael yr un pleser wrth wyllo'r cynhyrchiad ac y bydd y pecyn hwn yn cynnig syniadau ar sut y gallwch chi ymestyn profiad 'Dilyn Fi'.



FRÂN WEN

THEATR I'R IFANC
SY'N CYFFROI,
HERIO AC YSBRYDOLI.

EXCITING, CHALLENGING
AND INSPIRING THEATRE
FOR THE YOUNG.



post@franwen.com



01248 715 048



www.franwen.com



@cwmnifranwen



Porthaethwy,
Ynys Môn,
Cymru
LL59 5HS

